

KYFFIN, MORRIS (c. 1555 - 1598), llenor a milwr

Enw: Morris Kyffin
Dyddiad geni: c. 1555
Dyddiad marw: 1598
Rhiant: Catrin Kyffin (née Lloyd)
Rhiant: Thomas Kyffin
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: llenor a milwr
Maes gweithgaredd: Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Milwrol
Awdur: Glanmor Williams

mab Tomos Kyffin a'i wraig, Catrin iengaf, ill dau'n hanfod o deuluoedd o uchelwyr o gyffiniau Croesoswallt, oedd Morris Kyffin mwy na thebyg. Ni wyddys ymhle y cafodd ei addysgu, ag eithrio iddo fod yn ddisgybl barddol i [Wiliam Ll. n.](#), a'i fod wedyn yn Llundain, 1578-80, yn un o ddisgyblion a charedigion yr enwog [John Dee](#). Bu yn athro ar feibion yr arglwydd Buckhurst, tua 1580-2. Bu'n barddoni cryn dipyn yn Gymraeg ac yn Saesneg, ac yn 1587 cyhoeddodd *The Blessednes of Brytaine*, cân o fawl i'r frenhines Elisabeth. Y mae llawer o'i ganeuon Cymraeg ar gael yn y llawysgrifau o hyd. Yn 1588 cyhoeddwyd ei gyfieithiad Saesneg o *Andria*, un o gomediau Terens. Yn 1588, hefyd, penodwyd ef yn ' Surveyor of the Muster Rolls ' ym myddin Lloegr yn yr Iseldiroedd, ac yn 1591 yn is-drysorydd y lluoedd yn Normandi. Dychwelodd i Lundain i orffen, ac i gyhoeddi, yn 1594, ei gampwaith llenyddol, *Deffynniad Ffydd Eglwys Loegr*, cyfieithiad o *Apologia* yr esgob Jewel dros ffydd Eglwys Loegr, a gyhoeddwyd gyntaf yn 1562. Y mae'r *Deffynniad* yn un o glasuron rhyddiaith Gymraeg, ac yn hynod am rymuster a rhwyddineb ei iaith. Tymhestlog i Kyffin oedd y cyfnod o 1596 hyd ei farwolaeth, ac yntau'n swyddog milwrol, ' Comptroller of the Musters ' yn Iwerddon. Ei waith yno oedd gwyllo swyddogion diegwyddor a fynnai dwyllo'r Llywodraeth a gormesu'r trigolion. Hyd y gellir barnu, bu Kyffin yn onest a chydwybodol, a thrwy hynny enynnodd lid eraill llai dilwgr nag ef, ac yn enwedig ei gyd-swyddog Syr Ralph Lane. Bu farw 2 Ionawr 1598, a chladdwyd ef yn Eglwys Crist, Dulyn.

Awdur

Syr Glanmor Williams

Ffynonellau

W. P. Williams (gol.), *Deffynniad Ffydd Eglwys Loegr* (Bangor 1908)

W. J. Gruffydd, *Llenyddiaeth Cymru o 1450 hyd 1600*, 86-97

T. Parry, *Hanes Llenyddiaeth Gymraeg hyd 1900*(1944), pen. viii

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Morris Kyffin](#)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q6913779](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.